
# Cynlluniau Lle

Hydref 24

## Beth ydi Cynllun Lle?




Mae Cynllun Lle yn ffordd o fynd i'r afael â defnydd tir a materion datblygu a phryderon ar lefel gymunedol yn ogystal â chyflawni dyheadau lleol.

Mae Cynlluniau Lle yn ychwanegu manylion lleol at gynlluniau datblygu lleol a gellir eu mabwysiadu gan yr awdurdod lleol fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

Er mwyn i Gynllun Lle ddod yn ganllaw cynllunio atodol, bydd yn rhaid i'r gymuned sy'n paratoi'r Cynllun Lle sicrhau ei fod yn cael ei baratoi gyda mewnbwn yr awdurdod lleol. Bydd arno hefyd angen sylfaen dystiolaeth gadarn a lefel dda o ymgysylltu â'r gymuned.
Cynlluniau Lleoedd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Pwy sy'n gallu paratoi Cynllun Lle?**
Caiff Cynlluniau Lle eu paratoi gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Mae hefyd yn bwysig eich bod chi'n gweithio'n agos efo ni yn CBSC, gan ein bod ni'n gallu rhoi rhywfaint o statws i'ch cynllun terfynol, a statws cyfreithiol hyd yn oed. Mae'n bwysig bod eich Cynllun Lle yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol. Os ydych chi'n llunio Cynllun Lle ar eich pen eich hun, ni fydd ganddo'r dylanwad fydd arnoch chi eisiau! Bydd mewnbwn a chefnogaeth tîm Cynllunio Strategol yr awdurdod lleol yn eich helpu chi i lunio cynllun sy'n cynnwys digon o dystiolaeth.

***Y manteision…***

- Ffordd o nodi materion datblygu pwysig yn eich cymuned a chytuno ar ffyrdd i fynd i'r afael â'r rheiny yn y dyfodol
- Galluogi cyfraniad cadarnhaol a rhagweithiol at y system gynllunio leol, gan gynnig mwy o ddylanwad dros benderfyniadau cynllunio
- Gallu defnyddio'r dystiolaeth a'r wybodaeth sy'n ategol i'ch Cynllun Lle i sicrhau cyllid ar gyfer camau gweithredu a phrosiectau sydd wedi'u nodi
- Ffordd o wella'r berthynas waith rhyngoch chi a'ch awdurdod lleol (a darparwyr gwasanaeth eraill o bosibl)



**This document is also available in English**

# Y Newyddion Diweddaraf

## *Cynlluniau Lle – symud ymlaen*

Yn ystod y 12 mis diwethaf, Cynllun Lle Towyn a Bae Cinmel oedd y Cynllun Lle cyntaf yng Nghonwy i gael ei fabwysiadu'n ganllaw cynllunio atodol; ac ym mis Ionawr lansiodd Bae Colwyn ei chynllun Lle ar gyfer y cymunedau o Hen Golwyn i Landrillo-yn-Rhos. Yn fwy diweddar mae Bae Colwyn wedi cwblhau ail gam y Cynllun Gweithredu, ac maen nhw wedi creu gweithgorau i ganolbwyntio ar y chwe thema a nodwyd yn eu cynllun.

Mae Towyn a Bae Cinmel bellach yn edrych ar recriwtio aelodau i'r bwrdd ac adolygu eu cylch gorchwyl; ac mae Abergele wedi penodi Swyddog Rheoli Prosiect ac Ariannu i hwyluso'r Cynllun Lle gyda chyllid wedi'i sicrhau am flwyddyn arall. Mae Bae Colwyn hefyd wedi llwyddo i gael cyllid i benodi Rheolwr Cynllun Lle.

Ym mis Mehefin cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Rhwydwaith Cynlluniau Lle Conwy, lle daeth cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor Cynllun Lle at ei gilydd i drafod gwersi a ddysgwyd a phrosesau i'r dyfodol.

## *Cynllun Lle neu Gynllun Cymuned?*

Llynedd cyflwynodd ein cydweithwyr yn y tîm Economi a Diwylliant raglen KickStarter Cynlluniau Lle, wedi'i dylunio i helpu cymunedau sy'n ystyried creu cynllun Lle.

Gyda chefnogaeth Cymorth Cynllunio Cymru, cefnogwyd Cynghorau Tref Llanfairfechan, Penmaenmawr, Llanrwst a Chonwy i ddod â chymunedau a chynghorau tref at ei gilydd i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu Cynlluniau Lle yn eu hardaloedd.

Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys ymgynghoriad ynghylch materion pwysig yn y gymuned, pa un ai oes bylchau mewn darpariaeth a pha flaenoriaethau y dylid eu nodi.

Yn bwysig iawn, ystyriodd y cymunedau pa ddull sy'n diwallu anghenion eu cymuned orau ac ai Cynllun Lle ydi'r ffordd orau ymlaen.

Rydym ni hefyd wedi defnyddio dull rhagweithiol yn yr ardaloedd o gwmpas y pedwar safle strategol a nodwyd yn y CDLlN i hyrwyddo Cynlluniau Lle sy'n seiliedig ar safle fel dull posibl i gefnogi'r ardaloedd hyn i'r dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: Conwy Community Guides (placeplans.org.uk)

Am fwy o wybodaeth gyffredinol, ewch i: Cyflwyno Cynlluniau Lle – Place Plans

**Os hoffech chi drafod Cynlluniau Lle yng Nghonwy a gweld sut fedran nhw helpu'ch cymuned, cysylltwch â** cynlluniaulle@conwy.gov.uk.

**Am fwy o wybodaeth am Abergele, Towyn a Bae Cinmel a Bae Colwyn:**

Abergele | Cynllun Lle Abergele (abergelepensarn.co.uk)

Welcome | TKBVOICE | Towyn & Kinmel Bay

Hafan | Colwyn bay (colwynplaceplan.com)
Video | Colwyn bay (colwynplaceplan.com)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL